Rhif: **WG24579**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cysoni dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer 2016/17

Cynigion dyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol a gynhelir ar gyfer y flwyddyn ysgol 2016/17

Dyddiad cyhoeddi: **Mehefin 2015**

# Cysoni dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer 2016/17

**Cynulleidfa**

Awdurdodau lleol yng Nghymru gan gynnwys eu priod gyfarwyddwyr addysg; cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yng Nghymru; awdurdodau esgobaethol; undebau athrawon; ESTYN; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC); Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC); Comisiynydd Plant Cymru.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoliadau i ddarparu ar gyfer rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau ysgol sydd wedi'u pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

**Camau i'w cymryd**

Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cangen Llywodraethu a Threfniadaeth Ysgolion
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6051
Ffacs: 029 2080 1044
e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon a'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau

**Dogfennau cysylltiedig**

Deddf Addysg 2002 (Saesneg yn unig)
www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents

Deddf Addysg (Cymru) 2014
www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=7186

*Dyddiadau tymhorau ysgol: Cynigion ar gyfer diwygio'r ffordd y mae dyddiadau tymhorau ysgol yn cael eu pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru* (2012) Dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio'r ffordd y mae dyddiadau tymhorau ysgol yn cael eu pennu
www.llyw.cymru/consultations/education/schooltermdates/;jsessionid=F025D1B4BFDE587FB4AAFBECA33F5498?skip=1&lang=cy

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG24579 ISBN digidol 978 1 4734 3071 6

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cefndir | 2 |
| 2. | Cynigion yr ymgynghoriad | 3 |
| 3. | Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd | 4 |
| 4. | Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad | 4 |
| 5. | Y ffordd ymlaen | 12 |
| 6. | Rhestr o'r ymatebwyr | 13 |

## 1. Cefndir

1.1 Newidiodd Deddf Addysg (Cymru) 2014 y trefniadau ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau yng Nghymru. O ganlyniad, tra bod awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer eu hysgolion, mae'n rhaid iddynt gydweithio'n awr i sicrhau bod y dyddiadau hynny'r un fath neu mor debyg â phosibl. Os nad ydynt yn gallu cytuno, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol ynglŷn â dyddiadau eu tymhorau er mwyn sicrhau bod dyddiadau tymhorau yn gyson ledled Cymru.

1.2 Cyflwynodd pob un ond un o'r 22 awdurdod lleol hysbysiadau yn cynghori Gweinidogion Cymru o ddyddiadau arfaethedig eu tymhorau yn 2016/17 ar gyfer pob ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol ac ysgol feithrin a gynhelir ("ysgolion rheolaidd") yn eu hardaloedd. Derbyniwyd hysbysiadau hefyd gan 70 (42%) o'r 167 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ledled Cymru.

1.3 Er bod awdurdodau lleol yn y De a'r Gogledd wedi dewis dyddiadau a oedd yn sicrhau cysondeb rhwng ysgolion rheolaidd yn eu hardaloedd, nid oedd y dyddiadau yn y De yn gyson â'r rhai yn y Gogledd bob tro. Yn yr un modd, tra bod rhywfaint o gysondeb rhwng y Canolbarth a'r De, roedd y dyddiadau hynny'n wahanol i'r rhai yn y Gogledd a'r De. Fodd bynnag, pennodd y 21 awdurdod lleol a ddychwelodd hysbysiadau wyliau'r Pasg er mwyn i'r tymor ysgol orffen ddydd Gwener 7 Ebrill 2017, sy'n golygu na fyddai ysgolion ar agor yn ystod Wythnos y Pasg.

1.4 O'r 70 o hysbysiadau a dderbyniwyd gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig, roedd 61 neu (87%) yn fodlon cytuno ar y dyddiadau a bennwyd gan eu hawdurdod lleol. Roedd 37 o'r 70 o hysbysiadau gan ysgolion Catholig gwirfoddol a gynorthwyir, ac mae 86 ohonynt yng Nghymru. Nid oedd 9 o'r 37 o ysgolion yn fodlon cael yr un Gwyliau Pasg â'u hawdurdod lleol, gan ffafrio parhau yn yr ysgol yn ystod Wythnos y Pasg hyd at ac yn cynnwys Dydd Iau Cablyd (13 Ebrill 2017). Fodd bynnag, golygai hyn bod 28 neu (76%) o'r ysgolion Catholig a ymatebodd yn fodlon cysoni eu dyddiadau tymhorau â'u hawdurdod lleol a thorri am y Pasg cyn dechrau Wythnos y Pasg.

1.5 Gan ystyried gwybodaeth heb ei dilysu a dderbyniwyd gan ysgolion Catholig ar ffurf hysbysiadau heb eu llofnodi a gwybodaeth dros dro gan awdurdodau lleol neu ysgolion eu hunain, roedd yn amlwg bod mwyafrif o ysgolion Catholig yn fodlon cysoni eu gwyliau Pasg â gwyliau eu hawdurdod lleol. Roedd hyn oherwydd bod 7 o'r 11 achos o wybodaeth heb ei dilysu'n nodi bod yr ysgol yn fodlon cysoni dyddiadau eu tymhorau â'u hawdurdod lleol, tra bod 4 yn anfodlon. Pe baem yn cynnwys y wybodaeth hon gyda'r hysbysiadau a lofnodwyd a dderbyniwyd, byddai'n dangos bod gwybodaeth wedi'i derbyn gan 48 o'r 86 o ysgolion Catholig, ac o'r rhain roedd 36 neu (73%) yn fodlon cysoni dyddiadau eu tymhorau â'r awdurdod lleol a pheidio â pharhau yn yr ysgol yn ystod Wythnos y Pasg. Roedd holl ysgolion yr Eglwys yng Nghymru a gyflwynodd hysbysiadau, neu lle derbyniwyd gwybodaeth heb ei dilysu, hefyd yn fodlon cysoni dyddiadau eu tymhorau ysgol â'r awdurdod lleol.

1.6 O ganlyniad, er gwaethaf pob ymdrech, ni lwyddwyd i gysoni dyddiadau tymhorau ysgol a oedd yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ystyried defnyddio'u pwerau i roi cyfarwyddyd ynghylch y dyddiadau tymhorau a fyddai'n cael eu pennu i sicrhau bod dyddiadau tymhorau'n gyson ledled Cymru yn 2016/17. Wrth benderfynu pa ddyddiadau tymhorau i'w pennu, rhoddodd Gweinidogion Cymru ystyriaeth ofalus i'r holl hysbysiadau wedi'u llofnodi a'r wybodaeth heb ei dilysu a dderbyniwyd, a phenderfynu cynnig cyfres o ddyddiadau a oedd yn ystyried rhai elfennau o'r dyddiadau tymhorau a gynigiwyd gan bob prif ranbarth yng Nghymru. Drwy wneud hynny, roeddynt yn credu bod y dyddiadau a gynigiwyd yn adlewyrchu barn y mwyafrif o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ynglŷn â gwyliau'r Pasg. O ganlyniad i'r dadansoddiad o hysbysiadau dyddiadau tymhorau, credai Llywodraeth Cymru ei bod yn rhesymol cynnig dyddiadau tymhorau ar gyfer 2016/17 lle byddai tymor yr ysgol yn gorffen cyn dechrau Wythnos y Pasg.

## 2. Cynigion yr ymgynghoriad

2.1 Cyn defnyddio'u pwerau cyfarwyddo, mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad priodol. Cynhaliwyd ymgynghoriad tri mis o 10 Tachwedd 2014 i 2 Chwefror 2015 yn holi am farn ar y dyddiadau cyson ar gyfer tymhorau ym mlwyddyn ysgol 2016/17 yr oedd Gweinidogion Cymru'n bwriadu eu cyflwyno ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru a'r cyfarwyddyd drafft cysylltiedig. Yn ogystal, cyhoeddwyd fersiwn addas i blant a chynhaliwyd chwe sesiwn ymgynghori ledled Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc. Y dyddiadau arfaethedig ar gyfer 2016/17 yr ymgynghorodd Gweinidogion Cymru arnynt oedd:

| | |
|---|---|
| Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol | Dydd Iau 1 Medi 2016 |
| Gwyliau hanner tymor yr hydref | Dydd Lun 24 Hydref 2016 i ddydd Gwener 28 Hydref 2016 |
| Gwyliau'r Nadolig | Dydd Llun 19 Rhagfyr 2016 i ddydd Llun 2 Ionawr 2017 (h.y. dychwelyd i'r ysgol ddydd Mawrth 3 Ionawr 2017 |
| Hanner tymor y Gwanwyn | Dydd Llun 20 Chwefror 2017 i ddydd Gwener 24 Chwefror 2017 |
| Gwyliau'r Pasg | Dydd Llun 10 Ebrill 2017 i ddydd Gwener 21 Ebrill 2017 |
| Hanner tymor yr Haf | Dydd Llun 29 Mai 2017 i ddydd Gwener 2 Mehefin 2017 |
| Diwrnod olaf yn yr ysgol | Dydd Gwener 21 Gorffennaf 2017 |

## 3. Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd

3.1 Derbyniwyd cyfanswm o 48 o ymatebion i'r ymgynghoriad a gellir eu categoreiddio fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 16[1] |
| Awdurdodau Esgobaethol | 1 |
| Undebau | 4 |
| Ysgolion<br>*7 – gan Ysgolion Gwirfoddol Catholig a Gynorthwyir*<br>*1 – gan Ysgol Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir*<br>*3 – gan ysgolion cymunedol* | 11 |
| Cyrff cynrychioladol a chyrff eraill | 8 |
| Unigolion/dienw | 8 |

3.2 Er na dderbyniwyd ymatebion i'r fersiwn o'r ddogfen ymgynghori ar gyfer ieuenctid; mae rhai o'r safbwyntiau a fynegwyd yn y cynadleddau yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen hon.

## 4. Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.1 Oni nodir yn wahanol, mynegir canrannau drwy'r adroddiad hwn fel mesur o ymatebwyr i bob cwestiwn. Mae'r holl ganrannau wedi'u talgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

4.2 Gofynnodd y ddogfen ymgynghori un cwestiwn penodol ar ddyddiadau arfaethedig y tymhorau ar gyfer blwyddyn ysgol 2016/17 a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig.

**Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â'n cynigion ar gyfer dyddiadau tymhorau blwyddyn ysgol 2016/17 a bennir yn y tabl ym mhwynt 4.1, a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig yn yr Atodiad a drafodwyd ym mhwynt 4.2?**

4.3 Ymatebodd pob un o'r 48 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 22 (46%) yn cytuno â'r cynigion tra bod 21 (44%) yn anghytuno a 5 (10%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

4.4 **Roedd y 22 o ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r dyddiadau arfaethedig yn cynnwys:**

- Roedd 15 o awdurdodau lleol (gan gynnwys un ymateb ar y cyd gan chwe Awdurdod y Gogledd) yn cytuno, gyda 2 o awdurdodau'r De yn crybwyll mai dim ond yn wahanol oedd y dyddiadau i'r rhai mewn hysbysiadau a gyflwynwyd yn flaenorol i Lywodraeth Cymru. Cytunodd awdurdod lleol Powys ar y sail nad yw'r

[1] Gan gynnwys ymateb ar y cyd gan chwe awdurdod y Gogledd

dyddiadau'n effeithio ar Sioe Frenhinol Cymru.

- Cytunodd 4 o ymatebwyr yn ogystal ag awdurdod lleol Powys ar y sail nad yw'r dyddiadau yn effeithio ar Sioe Frenhinol Cymru. Roedd hyn yn cynnwys Ysgol yr Eglwys yng Nghymru St Michael a ddywedodd ei bod yn bwysig bod unrhyw ddyddiadau gorffen yn nhymor yr haf yn ystyried Sioe Frenhinol Cymru.

- 1 ysgol gynradd gymunedol.

- Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn cytuno gan ddweud bod dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni yn ategu strategaethau gwrthdlodi ac y bydd y newidiadau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen yn golygu na fydd gan rai teuluoedd yng Nghymru gostau gofal plant ychwanegol yn ystod gwyliau'r ysgol ac y dylid croesawu hynny.

- Cytunodd Estyn â'r dyddiadau hefyd gan ddweud y byddai cysoni dyddiadau tymhorau ysgol yn ddefnyddiol iawn i Estyn wrth iddo gynllunio ei raglen arolygu.

4.5 **Roedd y 21 o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r dyddiadau tymhorau arfaethedig yn cynnwys:**

- Dywedodd un Awdurdod Lleol a oedd yn anghytuno nad oedd cadw at ddyddiadau calendr ar gyfer y Pasg yn ategu'r gwaith o ddysgu ac addysgu. Yn benodol, mae Pasg hwyr yn golygu bod tymor y gwanwyn yn hir ac nad oes llawer o amser arwain ar ôl y gwyliau i gefnogi a pharatoi disgyblion yn effeithiol ar gyfer eu harholiadau allanol. Fodd bynnag, roedd yr ymatebydd hefyd yn cydnabod bod yn well gan ysgolion Catholig weithio yn yr wythnos a oedd yn arwain at y Pasg sy'n golygu bod gan yr ysgolion hyn lai o amser fel arfer i baratoi ar gyfer arholiadau nag ysgolion prif ffrwd eraill.

- 8 ysgol gan gynnwys 7 ymateb o 3 ysgol Gatholig a oedd yn anghytuno ar sail pwysigrwydd cyfnod y Pasg ac amryw ddigwyddiadau a dathliadau'r ffydd Gatholig a phennaeth ysgol o Wrecsam a oedd yn anghytuno ar sail y tymhorau o wahanol hyd ac yn dweud bod tymhorau o'r un hyd yn fwy buddiol i ddysgwyr

- Dywedodd Esgobaeth Gatholig Wrecsam na ddylai'r cynnig i drin pob ysgol yr un fath, tra'n ceisio fel y dylid i sicrhau'r opsiwn tecaf ar gyfer rhieni, ddiystyru nodau addysgol ysgolion Catholig ac ni ellir ystyried bod hynny'n bwysicach. Dywedodd nad oedd yn derbyn y rhagdybiaethau bod rhai ysgolion yn fodlon derbyn y dyddiadau a roddir oherwydd nad ydynt wedi ymateb a'i fod yn credu bod ysgolion yn tueddu i gydymffurfio ag Awdurdodau Lleol a pheidio â'u cwestiynu.

- 7 ymateb a oedd yn ymwneud â thair ysgol Gatholig (e.e. rhieni, llywodraethwyr neu blwyfolion yn gysylltiedig â'r ysgolion Catholig) a oedd yn anghytuno ar sail debyg i'r 7 ymateb o 3 ysgol Gatholig.

- Roedd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau yn anghytuno ac yn dweud nad oes cydnabyddiaeth yn y Cyfarwyddyd drafft i'r angen i sicrhau bod aelodau'r gweithlu, sydd wedi gwneud trefniadau ac

ymrwymiadau ariannol ar sail y dyddiadau a gyhoeddwyd yn flaenorol gan ysgolion ac awdurdodau lleol, yn cael cymryd absenoldeb â thâl.

- 3 ymateb gan gynnwys dau oedd yn anghytuno â'r rhagdybiaeth anghywir bod y dyddiadau yn cyd-daro â Sioe Frenhinol Cymru, ac roedd un arall oedd yn anghytuno ar y sail nad oedd hi'n glir sut y gallai hyn effeithio ar Sioeau Brenhinol Cymru yn y dyfodol, er nad oedd ganddo broblem â'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer 2016/17.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.6 O ran creu tymhorau o'r un hyd, yr amcan polisi wrth wraidd y newidiadau oedd sicrhau cysondeb o ran dyddiadau tymhorau ysgol ledled Cymru. Mae Awdurdodau Lleol ac ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau, ond lle na cheir cysondeb, bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r dyddiadau er mwyn sicrhau cysondeb. Wrth wneud hynny, bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried dyddiadau arfaethedig a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol a materion perthnasol eraill, gan gynnwys hyd tymhorau i sicrhau eu bod mor gyfartal â phosibl, ond nid hyn yw'r amcan pwysicaf ac ni fydd sicrhau tymhorau o'r un hyd yn bosibl bob tro.

4.7 Rydym yn gwerthfawrogi bod pryderon a godwyd ynghylch yr effaith ar ddigwyddiadau a gwyliau Ysgolion Catholig, a dyna pam mae'r cynigion hyn wedi bod yn destun ymgynghoriad eang. Cafodd awdurdodau lleol ac ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ragrybudd o'r newidiadau arfaethedig ac maent wedi cael cyfle i ymateb i sawl ymgynghoriad ar y mater hwn. Mae awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau a gofynnwyd iddynt gyflwyno hysbysiadau o ddyddiadau tymhorau ym mis Awst 2014. Cytunodd y rhan fwyaf o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig a fanteisiodd ar y cyfle i ddychwelyd hysbysiadau ac ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys rhai ysgolion Catholig, i fod yn gyson â'u hawdurdodau lleol a pheidio ag agor eu drysau yn ystod Wythnos y Pasg, tra bod lleiafrif yr hysbysiadau wedi dewis agor eu drysau yn ystod Wythnos y Pasg ac felly peidio â sicrhau bod eu dyddiadau ar gyfer y Pasg yn gyson â'u hawdurdod lleol. Cyfrannodd hyn at ein helpu i benderfynu ar y cynigion ar gyfer dyddiadau tymhorau ysgol 2016/17.

4.8 Mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i Awdurdodau Lleol gyfathrebu ag ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn eu hardal yn ogystal ag awdurdodau lleol cyfagos i geisio sicrhau cysondeb o ran dyddiadau tymhorau. Nid ydym yn derbyn y byddai ysgolion sefydledig/ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir wedi'u gorfodi i gydymffurfio â'u Hawdurdodau Lleol pan mae ganddynt yr hawl i ddewis eu dyddiadau tymhorau dewisol fel y mae rhai ysgolion yn y De yn dewis ei wneud.

4.9 Nid ydym yn derbyn bod yr ymgynghoriad yn methu mynd i'r afael â'r mater o aelodau o weithleoedd ysgolion yn cael absenoldeb â thâl oherwydd dyddiadau tymhorau a gyhoeddwyd yn flaenorol gan eu Hawdurdodau Lleol. Hysbyswyd pob Awdurdod Lleol yng Nghymru gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau am y trefniadau deddfwriaethol newydd yng Nghymru mor bell yn ôl â mis Gorffennaf 2013 ac felly

byddent wedi bod yn ymwybodol y gallai dyddiadau tymhorau a gyhoeddwyd ar gyfer 2016/17 newid.

4.10 Ymatebodd nifer o ymatebwyr ar sail rhagdybiaeth anghywir bod y dyddiadau arfaethedig yn effeithio ar Sioe Frenhinol Cymru yn 2017. Nid yw'r dyddiadau arfaethedig yn effeithio ar y Sioe yn 2017 sydd wedi'i threfnu i ddechrau ar 24 Gorffennaf 2017, yr wythnos ar ôl dyddiad dydd Gwener olaf y flwyddyn ysgol.

4.11 **Roedd y 5 o ymatebwyr nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno'n cynnwys:**

- Er bod Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yn cytuno â'r egwyddor o ddyddiadau tymhorau cyson, yn enwedig oherwydd y problemau y gall amrywiadau eu hachosi ar gyfer ysgolion eraill a gynhelir sy'n rhannu gwasanaethau ag ysgolion Catholig ac ar gyfer dysgwyr 14-19 oed ar gyrsiau cydweithredol, awgrymodd y byddai rhai clystyrau o ysgolion yn gwerthfawrogi'r cyfle i agor eu drysau yn ystod yr wythnos cyn y Pasg, lle mae yna gytundeb yn lleol, ac nad oes fawr ddim effaith ar ddysgwyr a theuluoedd.

- Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) mewn partneriaeth â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru y byddai'n well ganddynt weithio tuag at ateb parhaol yn hytrach nag ymgynghori'n flynyddol ar gyfarwyddyd ynghylch dyddiadau.

- Roedd tri ymatebwr nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno ar y sail bod rhai o'r dyddiadau a gynigiwyd yn iawn ond nad oedd eraill ac nid oeddynt yn deall pam bod y dyddiadau arfaethedig wedi'u dewis. Crybwyllodd un bod gwyliau'r Nadolig yn dechrau'n rhy gynnar a doedd un arall ddim yn cytuno nac yn anghytuno ar y sail nad yw llawer o'r dyddiadau'n gyson â'r rhai a ddewiswyd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Ni nododd un ymateb o gyngor ysgol a oedd yn cytuno neu'n anghytuno'n benodol, ond bod angen ystyried gwrthdrawiad posibl â Sioe Frenhinol Cymru o ran dyddiadau tymhorau yn y dyfodol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.12 Byddai caniatáu i leiafrif o ysgolion bennu dyddiadau nad ydynt yn gyson ag ysgolion eraill yng Nghymru yn mynd yn groes i'r holl egwyddor o gysondeb rhwng ysgolion sydd wrth wraidd y newidiadau deddfwriaethol. Ni fyddai'n datrys y broblem sy'n ymwneud â chostau uchel gofal plant i rieni sydd â mwy nag un plentyn yn mynychu ysgolion sydd â gwahanol ddyddiadau, neu rai sy'n gweithio mewn un ysgol sydd â gwahanol ddyddiadau i ysgol eu plentyn. Ni fyddai chwaith yn mynd i'r afael â'r mater o ysgolion sy'n rhannu gwasanaethau neu sy'n rhannu cyrsiau ar y cyd ag ysgolion neu golegau eraill.

4.13 Gellid ystyried y byddai Gweinidogion Cymru'n camddefnyddio pwerau pe baent yn diystyru hawl awdurdodau lleol ac ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir i bennu dyddiadau tymhorau yn y lle cyntaf. O'r herwydd, mae'r ddeddfwriaeth wedi'i drafftio ar y sail bod awdurdodau lleol ac ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer eu hysgolion ond bod ganddynt ddyletswydd hefyd i gydgysylltu â'i

gilydd i sicrhau bod y dyddiadau hynny'r un fath neu mor debyg â phosibl. Dim ond os na ellir sicrhau cysondeb y bydd Gweinidogion Cymru yn ymyrryd a rhoi cyfarwyddyd ynghylch dyddiadau tymhorau. Disgwylir i Weinidogion Cymru ystyried y dyddiadau a roddwyd iddynt yn flaenorol wrth benderfynu pa ddyddiadau i'w pennu. Mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn cyhoeddi cyfarwyddyd.

4.14 Nid ydym yn credu ei bod yn ymarferol ceisio cael ateb parhaus o ran dyddiadau tymhorau o ystyried bod digwyddiadau ac amgylchiadau yn newid o flwyddyn i flwyddyn ac efallai na fyddwn yn gwybod am hynny flynyddoedd ymlaen llaw; er enghraifft, digwyddiad chwaraeon pwysig. Dyna pam y byddwn yn parhau i ymgynghori ar ddyddiadau tymhorau ysgol bob blwyddyn er mwyn gallu rhoi ystyriaeth briodol i newidiadau mewn amgylchiadau neu ddigwyddiadau arbennig yng Nghymru.

4.15 Er gwaethaf pob ymdrech gan ein hawdurdodau lleol ac ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ni lwyddwyd i gysoni dyddiadau tymhorau ysgol. O ganlyniad, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu defnyddio eu pwerau cyfarwyddo ac wedi ystyried yr holl hysbysiadau a lofnodwyd a'r wybodaeth heb ei dilysu'n ofalus iawn ac wedi penderfynu cynnig cyfres o ddyddiadau y maent yn credu sy'n ystyried rhai elfennau o'r dyddiadau tymhorau gan bob prif ranbarth yng Nghymru.

**Digwyddiadau ymgynghori Plant a Phobl Ifanc**

4.16 Er nad oeddynt wedi cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol, roedd 99 (55%) o'r 179 o blant a phobl ifanc a fynychodd sesiynau ymgynghori'n cytuno bod y dyddiadau tymhorau arfaethedig yn syniad da. Roedd 37 (21%) yn anghytuno ac nid oedd 43 (24%) yn gwybod neu ni wnaethant ymateb. Dywedodd un ei fod yn meddwl ei fod yn syniad da gan y gall pawb weld eu teuluoedd mewn gwahanol rannau o Gymru a chredai un arall bod y dyddiadau'n iawn ar y cyfan ond y dylid eu hadolygu'n rheolaidd gan fod pethau'n gallu newid fel yr hinsawdd neu ddiwylliant gwlad gan fod gennym fwy o grefyddau, diwylliannau a grwpiau'n byw yma bellach (grŵp yn y De).

**Llythyrau ymgynghori a dderbyniwyd y tu allan i'r ymgynghoriad ffurfiol**

4.17 Yn ogystal â'r ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol, anfonwyd 185 o lythyrau ymgyrch templed safonol i Lywodraeth Cymru gan rieni, llywodraethwyr neu staff ysgolion Catholig neu offeiriaid a phlwyfolion eglwysi. Mae dadansoddiad o'r llythyrau yn awgrymu bod yr anfonwyr yn gysylltiedig yn bennaf â thair o'r 86 ysgol Gatholig a oedd wedi'u lleoli o fewn dwy ardal awdurdod lleol yn y De.

4.18 Er bod rhai o'r llythyrau'n mynegi pryderon y byddai'r dyddiadau arfaethedig yn effeithio ar ddysgeidiaethau, digwyddiadau a gwyliau amrywiol ar galendr ysgolion Catholig, ar y cyfan roedd y llythyrau'n mynegi gwrthwynebiad i'r holl egwyddor o gysoni dyddiadau tymhorau, gyda rhai yn dweud eu bod yn ystyried bod y broses wedi'i rhuthro heb fawr o ymgynghori, os o gwbl, ac nad oeddynt wedi gweld astudiaeth o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei chynnal ar y newidiadau arfaethedig. Gan nad oedd y llythyrau hyn yn mynd i'r afael â chwestiwn yr

ymgynghoriad sef a oeddynt yn cytuno â'r dyddiadau tymhorau arfaethedig ar gyfer 2016/17 a/neu fynd i'r afael â materion yr ymgynghorwyd arnynt yn flaenorol, ystyriwyd eu bod y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad ac felly nid oeddynt yn cael eu trin fel ymatebion i'r ymgynghoriad.

4.19 Lle'r oedd amserlenni'r ymgynghoriad yn caniatáu hynny, cynigiwyd cyfle i'r rhai a oedd wedi cyflwyno llythyrau o'r fath i gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol i sicrhau bod eu safbwyntiau ar y dyddiadau arfaethedig yn cael eu hystyried cyn i'r cyfnod ymgynghori ddirwyn i ben. Dewisodd o leiaf 7 o'r rheini a gyflwynodd lythyr ymgynghori ymateb i'r ymgynghoriad ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y crynodeb i'r ymgynghoriad uchod.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.20 Mae ymgynghori eang wedi bod ar gysoni dyddiadau tymhorau ers 2012, gan gynnwys pedwar ymgynghoriad ar wahân. Paratowyd a chyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant trwyadl hefyd yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd. Nodir manylion pellach ym mharagraffau 4.22 a 4.23 isod.

**C2. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

**Byddem yn croesawu'ch safbwyntiau ar effaith bosibl ein holl gynigion ar:**

a) **anabledd**
b) **hil**
c) **rhyw ac ailbennu rhywedd**
d) **oedran**
e) **crefydd a chred a diffyg cred**
f) **cyfeiriadedd rhywiol**
g) **hawliau dynol.**

4.21 **O'r 30 (63%) o'r 48 o ymatebwyr a ddewisodd ymateb i'r cwestiwn hwn:**

- Roedd 23 (77%) o'r farn y gallai'r cynigion effeithio ar ysgolion ffydd. Ychwanegodd ambell un o'r ymatebwyr hyn bod y ddeddfwriaeth i gysoni dyddiadau tymhorau yng Nghymru wedi'i rhuthro ac nad oedd yr effaith ar gydraddoldeb wedi'i hystyried cyn creu'r cynigion hyn.

- Credai 1 ymatebwr bod hawliau cyrff llywodraethu mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir i bennu dyddiadau tymhorau'n cael eu herydu.

- Roedd ATL Cymru o'r farn y byddai'r cynigion yn effeithio ar faterion anabledd gan y byddent yn amlygu'r anhawster sy'n wynebu teuluoedd lle mae brodyr neu chwiorydd â gwahanol ddyddiadau tymhorau, os oes ganddynt blentyn anabl sydd wedi'i leoli y tu allan i ardal yr awdurdod lleol yn rhywle yn Lloegr.

- Ymatebodd rhai undebau athrawon eraill i'r ymgynghoriad hefyd, gan gynnwys NUT Cymru a nododd y byddai ailstrwythuro'r system ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau i'w gwneud yn fwy cyson o fudd i ddisgyblion, athrawon a rhieni yng

Nghymru am resymau amrywiol ac y bydd yr effaith yr un fath i bob diben beth bynnag fo'r materion unigol o ran hil/anabledd/rhyw/oedran, ond roeddynt yn cydnabod y gallai ysgolion Catholig wrthwynebu'r dyddiadau a gynigiwyd.

**Ymateb**

4.22 Mae ymgynghori eang wedi bod ar y bwriad i gysoni dyddiadau tymhorau ers mis Medi 2012, gan gynnwys pedwar ymgynghoriad ar wahân. Roedd yr ymgynghoriad cyntaf yn gofyn am safbwyntiau ar yr egwyddor o gysoni dyddiadau tymhorau, roedd yr ail a'r trydydd ymgynghoriad yn ymwneud â'r rheoliadau a fyddai'n rhoi'r newidiadau hyn ar waith ac roedd y pedwerydd ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar gynnig Llywodraeth Cymru i bennu dyddiadau tymhorau ysgol i sicrhau cysondeb ledled Cymru ac ar y cyfarwyddyd drafft. Derbyniodd yr holl ymgynghoriadau blaenorol adborth positif ar y cyfan ac roedd yr ymatebwyr o blaid dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni ledled Cymru. Dyma'r dolenni i'r ymgynghoriadau hyn:

http://llyw.cymru/consultations/education/schooltermdates/;jsessionid=F025D1B4BFDE587FB4AAFBECA33F5498?skip=1&lang=cy

http://llyw.cymru/consultations/education/term-dates-regulations/?skip=1&lang=cy

http://llyw.cymru/consultations/education/school-term-dates-regulations/?skip=1&lang=cy

http://llyw.cymru/consultations/education/harmonising-school-term-dates/?skip=1&lang=cy

4.23 Cynhaliwyd Asesiad trylwyr o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd ar gyfer Deddf Addysg Cymru 2014 yn ei chyfanrwydd sy'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gynigion i ddeddfu ar gysoni dyddiadau tymhorau ysgol. Mae hyn yn ystyried gwerthoedd ysgolion seiliedig ar ffydd.

http://llyw.cymru/legislation/programme/assemblybills/education-act/?skip=1&lang=cy

4.24 Mae cyrff llywodraethu Ysgolion Sefydledig ac Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ysgol, yn yr un modd ag awdurdodau lleol (mewn perthynas ag 'ysgolion rheolaidd') ond bellach mae ganddynt ddyletswydd hefyd i gydweithio i sicrhau bod y dyddiadau hynny'r un fath neu mor debyg â phosibl. Lle mae awdurdodau lleol ac ysgolion Sefydledig/Gwirfoddol a Gynorthwyir wedi methu â chytuno ar ddyddiadau tymhorau, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer dan Ddeddf Addysg 2002 i roi cyfarwyddyd iddynt ynghylch dyddiadau tymhorau er mwyn cysoni dyddiadau tymhorau ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Cafodd pob un o'r 163 ysgol Sefydledig ac ysgol wirfoddol a gynorthwyir yng Nghymru y cyfle i hysbysu eu ALlau o'u dyddiadau arfaethedig (gan gynnwys yr 86 ysgol Gatholig) a dewisodd 70 wneud hynny.

4.25 Mae pob ysgol yn Lloegr yn gyfrifol am bennu dyddiadau eu tymhorau eu hunain. Gan hynny, byddai'n anodd ystyried dyddiadau tymhorau ysgolion yn Lloegr a allai amrywio'n fawr wrth bennu dyddiadau tymhorau yng Nghymru.

**C3. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.**

4.26 **Dewisodd 29 (60%) o ymatebwyr ymateb i'r cwestiwn hwn a chynigiwyd nifer o awgrymiadau ynglŷn â sut y dylid trefnu dyddiadau tymhorau yn y dyfodol:**

- Awgrymodd Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa y gallai fod yn werth cael dyddiadau tymhorau sydd ychydig yn wahanol i ysgolion yn Lloegr i gynorthwyo i godi cyfraddau presenoldeb. Byddai hyn yn galluogi rhieni yng Nghymru i allu cael gafael ar wyliau rhatach yn ystod gwyliau'r ysgol. Drwy gael gwyliau ychydig yn wahanol i'r gwyliau yn Lloegr, gallai gynnig dewisiadau gwyliau rhatach i deuluoedd yng Nghymru ac yna ni fyddai angen iddynt gymryd eu plant o'r ysgol i fynd ar wyliau yn ystod y tymor.

- Awgrymwyd hefyd y gallai cynnig dyddiadau tymhorau ar gyfer ymgynghori bob tair blynedd fod yn fwy effeithlon, ac felly gael gwared ar y gofyniad i ALlau gynnal eu hymgynghoriad eu hunain gyntaf. Dywedodd Awdurdod Lleol Caerffili bod y gwaith a oedd wedi'i wneud i gyrraedd y sefyllfa hon eisoes wedi bod yn sylweddol. Mae cyfarwyddwyr ar draws rhanbarth y consortia o blaid argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am bennu dyddiadau tymhorau ysgol yn y dyfodol.

- Awgrymodd un ymatebwr y dylid safoni dyddiau HMS sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

- O ran y sesiynau ymgynghori â phlant a phobl ifanc, derbyniwyd sylwadau a oedd yn cynnwys: "*Nid yw gwyliau crefyddol nad ydynt rhai Cristnogol yn cael eu hystyried*" - plentyn ysgol uwchradd 15 oed; a "*Rydw i'n credu y dylai dyddiadau tymhorau fod yr un fath ar gyfer pob ysgol ledled Cymru. Ni ddylid rhoi unrhyw ystyriaeth wahanol i ysgolion crefyddol; ac ni ddylent ddewis dyddiadau eu tymhorau eu hunain ar y sail eu bod am iddynt gyd-fynd â gwyliau crefyddol*" - plentyn ysgol uwchradd 16 oed.

- Credai un ymatebwr y dylem newid o fodel tri thymor gan y gall y cyfnod gwyliau hir yn yr haf effeithio ar fomentwm addysg disgyblion ac y gall achosi problemau'n aml i rieni sy'n gweithio mewn amgylchedd gwahanol iawn i'r "calendr amaethyddol" y mae trefniant presennol y flwyddyn ysgol yn seiliedig arno.

- Cynigiodd Awdurdod Lleol Sir Fynwy bod hyd tymor y gwanwyn yn cael ei wneud yn rheolaidd, ac os yw'r Pasg yn hwyr, ei fod yn cael ei gymryd fel penwythnos hir yng nghanol y tymor, gan addasu hyd tymor yr haf os oes angen i alluogi disgyblion i fynychu'r ysgol ar 190 o ddiwrnodau. Credai'r ALl y byddai hyn yn helpu i gynorthwyo i baratoi ar gyfer arholiadau TGAU a Safon Uwch ac y byddai'n cynorthwyo i godi canlyniadau disgyblion.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.27 Mae ysgolion yn Lloegr yn gyfrifol am bennu dyddiadau eu tymhorau eu hunain a gallai hyn arwain at bennu pob math o ddyddiadau gwahanol; rydym yn gwybod bod rhai ysgolion yn Lloegr wedi dewis newid "patrwm" y flwyddyn ysgol yn sylweddol drwy gael 5 tymor byrrach a llai o wyliau haf yn hytrach na'r 3 tymor hirach traddodiadol a gwyliau haf o 6-7 wythnos. Hyd yn oed os nad yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn Lloegr yn dewis newid dyddiadau eu tymhorau i'r un graddau, mae'n annhebygol y byddem wedi pennu "patrwm" ar sail dyddiadau tymhorau Lloegr wrth bwyso a mesur dyddiadau tymhorau yng Nghymru.

4.28 Nid yw'n bosibl pennu dyddiadau tymhorau flynyddoedd lawer ymlaen llaw oherwydd ei bod yn amhosibl rhagweld digwyddiadau ac amgylchiadau arwyddocaol a allai godi. Fodd bynnag, gallai Gweinidogion Cymru newid y dyddiadau'n ddiweddarach i ystyried yr amgylchiadau hyn pe baent yn codi. Y trefniadau newydd mewn deddfwriaeth yw bod awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgol priodol yn parhau'n gyfrifol am bennu dyddiadau tymhorau ysgolion ac o dan adran 32B(1) Deddf Addysg 2002, gall Gweinidogion Cymru ystyried defnyddio'u pwerau i roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol ar ddyddiadau eu tymhorau. Bydd y polisi ar ddyddiadau tymhorau'n destun adolygiad rhwng 2017 a 2018.

4.29 Ar hyn o bryd, mae'r pŵer i bennu pwy sy'n penderfynu pryd y cynhelir dyddiau HMS yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol yn Whitehall. Felly, nid oedd modd pwyso a mesur y posibilrwydd o ganiatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd wrth bennu dyddiau HMS pan wnaed newidiadau i'r drefn ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau yn Neddf Addysg (Cymru) 2014 a gyflwynwyd yn ddiweddar. Ar hyn o bryd, cyfrifoldeb awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid yw trefnu ac amseru dyddiau HMS.

4.30 Croesewir yr awgrymiadau i newid y model tri thymor neu newid hyd gwyliau presennol (e.e. lleihau tymor yr haf a chael hanner tymor hirach). Fodd bynnag, gellid ystyried gweithredu awgrymiadau o'r fath fel newid patrwm y flwyddyn ysgol, ac nid yw hynny'n cael ei ystyried fel rhan o'r cynigion hyn.

## 5. Y ffordd ymlaen

5.1 Hoffai Llywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Bydd y Gweinidog yn ystyried yr adroddiad ar y grynodeb o'r ymatebion a'i ganfyddiadau wrth benderfynu ar y cyfarwyddyd parhaol ar gyfer dyddiadau tymhorau ysgol 2016/17, a ddisgwylir yn ystod haf 2015.

## 6. Rhestr o'r ymatebwyr

Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Ysgol Penycae, Wrecsam
Tim a Claire Jones, Wrecsam
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Lee Gerrard, Caerdydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Ysgol Gynradd Gatholig St Peter (Michael Flynn)
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Sir Abertawe
Estyn
NUT Cymru
Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir St. Patrick
Ysgol yr Eglwys yng Nghymru St Michael
Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Telesgop
Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir Ceredigion
Ysgol Gatholig St Helen (Martyn Western)
Nicholas Todd, Caerffili
Cyngor Sir Fynwy
Ysgol Gatholig St Helen (Robert L Thomas)
Ysgol Gatholig St Helen (Jeremy Markall)
Ysgol Gatholig St Helen
UCAC
Esgobaeth Gatholig Wrecsam
ATL Cymru
Cyngor Caerdydd
Comisiynydd Plant Cymru
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau
Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-muallt
Anwen Orrells, Powys

Yn ogystal â'r ymatebwyr uchod roedd 6 ymatebydd yn dymuno aros yn ddienw.